

Cyngor Cymuned **LLANBEDROG** Community Council

Cofnodion Cyfarfod 27/03/2023 7:00yh – O Bell

John Brinley Jones (Cad)	Thomas Victor Jones	David Andrew Parry	William Roger Jones
Gwenllian Davenport Hughes	Alan Harper-Smith	Greta Hughes	Hywel James Sinclair Evans
Ian Goronwy Williams	Ann L Williams (Cyfieithydd)	Pat Humphreys (Clerc)	

Gofynnodd y cadeirydd i bawb sydd eisiau cyfrannu yna iddynt roi eu llaw i fyny a pan fydd angen pleidleisio i bawb wneud drwy ddangos llaw.

1. Ymddiheuriadau

Dim.

2. Datgan Buddiant Ariannol neu Personol

Hywel James Sinclair Evans – eitem 10 - Llythyr y Cyngorydd Jina Gwyrfaï - mae'n gweithio i Cynefin sy'n gyfrifol am redeg a gweinyddu y cynllun Tai Teg ond tydi o ddim yn gweithio ar y cynllun nac yn rhoi unrhyw fewnbwn iddo.

3. Cofnodion Pwyllgor 27/02/2023

Derbyniwyd y cofnodion yn gywir.

Cynnig: David Andrew Parry Eilio: William Roger Jones

Materion yn codi o'r cofnodion:

Dim.

4. Unrhyw Fater Brys

Trefnu cyfarfod hefo Lily Usher.

Yn dilyn y pwyllgor diwethaf fe geisiodd y clerc drefnu cyfarfod rhwng yr aelodau â Lily Usher o'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol ond dim ond un aelod wnaeth ymateb i'r ebost felly mae'r clerc wedi cysylltu hefo hi eto i ofyn am ddyddiadau posibl yn ystod mis Ebrill ac mae hi wedi cynnig y trydydd a'r pedwerydd.

Penderfyniad: cytunodd bawb ar y trydydd o Ebrill am 4.30 y prynhawn felly mae'r clerc am yrru ebost iddi.

Posterï o gwmpas y Pentref

Mae'r clerc wedi derbyn galwad ffôn gan aelod o'r cyhoedd dydd Sul yn dweud bod ei manylion cyswllt ar bosteri sydd o amgylch y pentref ac yn ymwneud â datblygiad Solar Lôn Pin. Nid yw'r clerc yn gwybod dim am y posterï yma ac hefyd ddim yn gwybod pwy sydd wedi eu rhoi i fyny, nid oes neb wedi cysylltu hefo hi i ddweud eu bod yn mynd i fyny nac i ofyn ei chaniatad i roi ei manylion cyswllt arnynt felly nid oedd y clerc yn gallu helpu'r person yma. Mae rhai o'r aelodau wedi gweld y posterï ac am anfon llun ohonynt i'r clerc.

Sbwriel o gwmpas y Pentref

Cyngor Cymuned **LLANBEDROG** Community Council

Cofnodion Cyfarfod 27/03/2023 7:00yh – O Bell

Mae William Roger Jones wedi sylwi fod yna ddipyn o sbwriel o gwmas y pentref ac eisiau gwybod os yw Cyngor Gwynedd yn rhoi bagiau duon a ffyn codi sbwriel allan i wirfoddolwyr fynd o amgylch i godi sbwriel gan y byddai yn ddigon bodlon i wneud hynny. Mae'r clerc am gysylltu hefo Cyngor Gwynedd i ofyn ac am yrru ebost i'r aelodau.

5. Damwain Marta Rudlin

Mae'r clerc wedi derbyn ebyst gan Stuart Rudlin yn dilyn damwain ei wraig hefo lluniau wedi eu atodi yn gofyn i rhywun gysylltu hefo fo i drafod y digwyddiad ac mae'r clerc wedi anfon yr ebyst yma ymlaen i'r aelodau. Soniodd y cadeirydd am y ddamwain yn y pwyllgor diwethaf ac mae'r bont wedi cael ei chau erbyn hyn.

Penderfyniad: y clerc i gysylltu hefo y cwmni yswiriant i gael cyngor ar sut i symud ymlaen ac ebostio'r aelodau wedyn.

Dywedodd Greta Hughes bod angen penderfynnu ar y camau cywir o hyn allan yn dilyn damwain fel hyn felly mae'r mater wedi cael ei roi ar agenda mis nesaf ac mae'r clerc am gysylltu hefo Un Llais Cymru i ofyn os oes ganddynt arweiniad i gynnig ar y mater.

Dywedodd Greta Hughes hefyd mai'r clerc ddylai gysylltu hefo Roger Fisher o hyn allan ynglŷn â gwaith y Cyngor Cymuned ac nid y cadeirydd.

O ran trwsio'r canllawiau ar y bont mae'r cadeirydd wedi edrych i fewn i wahanol ganllawiau ac wedi anfon ebost i'r aelodau hefo lluniau ac wedi cyfarfod dau gontractwr wrth y bont i gael cyngor. Mae'r cadeirydd yn meddwl mai dim ond un canllaw sydd ei angen ac mae Greta Hughes yn cytuno hefo un canllaw neu ddim o gwbl ac hefyd yn awgrymu i rhywun edrych o dan y bont i weld os yw'r haearn sydd yn dal y llechi yn iawn. Cytunodd Thomas Victor Jones nad oes angen canllaw o gwbl gan ei fod wedi cerdded a beicio ar draws Bont Lechen ym Mhwlheli lawer gwaith ac nid oes canllaw ar honno ac yn awgrymu y dylid cael cyfarfod wrth y bont ar ôl cyfarfod Lily Usher prynhawn dydd Llun. Mae Gwenllian Davenport Hughes yn cynnig tynnu'r canllawiau sydd yno cyn y Pasg a rhoi rhybudd i fyny i rybuddio bawb. Dywedodd Alan Harper-Smith ei fod yn cytuno i beidio rhoi canllawiau ar y bont. Cynnigiodd Thomas Victor Jones fod y canllawiau yn cael eu tynnu cyn y Pasg ac eiliodd Ian Goronwy Williams felly mae'r clerc am gysylltu hefo Roger Fisher i ofyn wrtho eu tynnu.

6. Ymddiswyddiad Pat Whitney a llenwi sedd wag

Mae'r clerc wedi derbyn ebyst gan Patricia Hope-Whitney yn ymddiswyddo oherwydd materion iechyd a rhesymau personol.

Penderfyniad: peidio a derbyn ei ymddiswyddiad heno ond rhoi y cyfle iddi fynychu'r cyfarfodydd dros y misoedd nesaf ond os na fydd yn gwneud hynny ac y bydd 6 mis yn pasio heb iddi fynychu yna fe fydd yn cael ei diarddel yn unol a'r gyfraith.

Cynnig: Greta Hughes Eilio: David Andrew Parry

Penderfynwyd hefyd i aros a gweld os y bydd Alaw Ceris a Patricia Hope-Whitney yn mynychu cyfarfod eto cyn i'r cyfnod o 6 mis ddod i ben cyn hysbysebu y sedd wag. Y drefn ar gyfer hynny yw i'r clerc gysylltu hefo Cyngor Gwynedd i ddweud bod yna sedd wag, mae nhw wedyn yn gyrru rhybudd i'r clerc ei roi i fyny sydd yn hysbysebu'r sedd wag ac yn rhoi mis i unrhyw un gynnig ei enw, os bydd mwy nac un enw yn cael ei dderbyn yna fe fydd rhaid cael etholiad ac os na fydd enw yn cael ei dderbyn yna caiff y Cyngor Cymuned gyfethol.

Cyngor Cymuned **LLANBEDROG** *Community Council*

Cofnodion Cyfarfod 27/03/2023 7:00yh – O Bell

7. Newid i gyfarfodydd Hybrid

Cafwyd cais gan Alan Harper-Smith i newid i gyfarfodydd wyneb yn wyneb ond eglurodd y clerc yn ôl rheolau Un Llais fod pob cyfarfod o hyn allan i fod i gael ei gynnig yn hybrid sef pwy bynnag sydd eisiau mynd i'r Neuadd fynd yno a pawb sydd ddim ymuno drwy zoom. Gofynnodd David Andrew Parry os y byddai hyn yn golygu unrhyw gostau ac oherwydd fod y wifi yn y Neuadd yn barod yna ni fydd yn costio dim mwy ond fe fydd rhaid i Alan Harper-Smith ddod a'i ddyfais ei hun a rhoi ei hun ar 'mute' a gwisgo clustffonau er mwyn cael cyfieithiad. Cynnigiodd David Andrew Parry i gynnal cyfarfodydd Hybrid o fis Ebrill ymlaen ac eiliodd Ian Goronwy Williams. Mae'r clerc am gysylltu hefo Barbara Warren i ddweud wrthi ac i roi dyddiadau'r pwyllgorau iddi. Awgrymodd Alan Harper-Smith ein bod yn dweud wrth Patricia Hope-Whitney bod y cyfarfodydd yn newid i Hybrid o hyn allan.

8. Biniau ger y Llecyn Mwyniant

Mae Cyngor Gwynedd wedi mynd a dau o'r biniau oedd wrth y llecyn mwyniant oddi yno gan eu bod wedi llosgi oherwydd fod rhywun wedi rhoi 'BBQ' yn un ohonynt ac mae Alan Harper-Smith wedi gofyn i Cyngor Gwynedd am ddau fin arall yn neu lle. Dywedodd swyddog o Cyngor Gwynedd y dylai pobol fynd a'u sbwriel adra hefo nhw sef yr ateb a gafwyd gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol pan ofynwyd iddynt am fin ger y traeth ond ei fod yn agored i syniadau ac efallai dim ond rhoi un bin yn ôl yn lle dau. Dywedodd David Andrew Parry ei fod wedi gweld y bin baw ci sydd wrth y maes parcio yn orlawn ac am nad oes bin sbwriel wrth y llecyn mwyniant mae pobol yn rhoi'r sbwriel yn y bin baw ci ac ar y llawr o'i gwmpas. Cytunodd pawb i'r clerc gysylltu hefo Cyngor Gwynedd i ofyn am gael dau fin yn ôl yna.

9. Potiau blodau

Diolchodd Alan Harper-Smith i'r Cyngorydd Angela Russell am gael y potiau blodau newydd yn y pentref ac yn gofyn os oes posibl cael gwirfoddolwyr i edrych ar ôl y potiau sydd o gwmpas y pentref fel eu bod yn cael eu dyfrio a'u chwynu yn ystod yr haf. Mae'r pot sydd drost y ffordd i'r Spar wrth ymyl y fainc wedi pydru ac wedi malu ac eisiau cael gwared ohono ac mae ambell i bot angen eu paentio felly mae'r clerc am gysylltu hefo Roger Fisher i ofyn wrtho. Awgrymodd David Andrew Parry bod rhywbeth yn cael ei roi ar facebook y Cyngor Cymuned yn gofyn am wirfoddolwyr i edrych ar ôl y potiau o gwmpas y pentref. Mae Greta Hughes yn cofio bod y Cyngor Cymuned wedi pasio i gael mwy o botiau i'r pentref ychydig o flynyddoedd yn ôl ond ni chafodd hyn ei wneud felly awgrymodd Thomas Victor Jones i ofyn i'r Cyngorydd Angela Russell os oes potiau blodau llai ar gael gan y cwmni lle cafodd hi'r potiau mawr newydd a cytunodd Greta Hughes i ofyn wrthi.

10. Llythyr y Cyngorydd Jina Gwyrfa

Mae'r aelodau wedi cael copi o'r llythyr hefo'r agenda ac mae'r clerc wedi ei ddarllen allan yn y cyfarfod. Cafwyd trafodaeth ar y cynnig a penderfynwyd i'w gefnogi.

Cynnig: David Andrew Parry Eilio: Greta Hughes

Cyngor Cymuned **LLANBEDROG** Community Council

Cofnodion Cyfarfod 27/03/2023 7:00yh – O Bell

11. Cynllun Penrhos

Cafwyd diweddariad gan y cadeirydd yn dilyn y cyfarfod diweddar yn y Neuadd. Fe fydd rhaid aros nes y bydd cais cynllunio ffurfiol wedi ei gyflwyno ganddynt i'r adran gynllunio a bydd cyfle i'r Cyngor Cymuned gyflwyno eu sylwadau yr adeg hynny.

12. Cynllun Solar Lôn Pin

Cafwyd diweddariad gan y cadeirydd yn dilyn y cyfarfod diweddar yn y Neuadd. Fe fydd rhaid aros nes y bydd cais cynllunio ffurfiol wedi ei gyflwyno ganddynt i'r adran gynllunio a bydd cyfle i'r Cyngor Cymuned gyflwyno eu sylwadau yr adeg hynny.

13. Trwsio sail y ddelw – Ebst Iwan Hughes

Mae ebst wedi ei dderbyn gan Iwan Hughes yn dweud fod y Cyngor Cymuned wedi cytuno sawl blwyddyn yn ôl i drwsio sail y Ddelw ond nid yw hyn wedi cael ei wneud felly mae'n gofyn i hyn gael ei drefnu. Cytunodd Thomas Victor Jones a David Andrew Parry bod angen ei drwsio ar frys gan iddynt godi'r mater dipyn o fisoedd yn ôl ond ni chafodd ei basio ar y pryd ac felly gofynwyd i'r clerc gael dyfynbrisiau gan gcontractwyr lleol i wneud y gwaith. Mae David Andrew Parry wedi bod yno yn gweld beth sydd angen ei wneud ac am yrru lluniau a disgrifiad i'r clerc ei anfon i'r contractwyr i wneud y dyfynbris. Mae'r aelodau am yrru manylion contractwyr lleol iddi gysylltu hefo ac hefyd mae hi am ei roi ar facebook.

14. Llwybrau

Dim.

15. Y Fynwent

Y Fynwent Newydd

Mae'r clerc wedi derbyn ebst gan Gamllins yn hwyr y prynhawn yma ac wedi ei anfon i'r aelodau. Maent yn atodi copi o'r cynllun a'r gweithredoedd sydd hefo cyfamod ar y tir yn cyfyngu'r defnydd ar gyfer mynwent yn unig ac fe fydd yn rhaid gwneud yn saff bod y mesuriadau cywir yn cael eu rhoi ar y gweithredoedd. Mae Greta Hughes yn siomedig bod yna gyfamod ar y tir ond nid yw wedi cael cyfle i edrych ar y dogfennau yn fanwl eto ond yn cytuno y dylai'r mesuriadau fod yn gywir sef y rhai gwreiddiol a gytunwyd. Penderfynwyd rhoi'r mater ar agenda mis nesaf i roi cyfle i bawb ddarllen y dogfennau yn iawn.

16. Cae chwarae

Nid oes diweddariad wedi cael ei dderbyn cyn y pwyllgor.

17. Neuadd y Pentref

Diweddariad gan yr Is-bwyllgor newydd.

Nid oes diweddariad ers y pwyllgor diwethaf gan nad oes cyfarfod wedi bod, cynhelir y cyfarfod nesaf ar y 29^{ain} o Fawrth.

Cyngor Cymuned **LLANBEDROG** Community Council

Cofnodion Cyfarfod 27/03/2023 7:00yh – O Bell

Taliadau wedi eu cymeradwyo

Cyflog y Clerc – Pat Humphreys	£416.00
HMRC – PAYE Mis 12	£104.00
Ann Llwyd – Cyfieithydd	£145.00
Pat Humphreys – Ad-daliad blodau ar y beddi at Sul y Blodau	£40.00

Taliadau wedi eu Derbyn

Banc Lloyds – yn dilyn cŵyn	£40.00
------------------------------------	---------------

Ceisiadau Cynllunio

Dim.

Unrhyw gais fydd wedi dod i law erbyn y cyfarfod.

Dim.

Cais am gyfraniad ariannol

1. Macmillan – Rhoi cyfraniad o £50.00
2. Rachel Heal – Beic i Ysgol Hafod Lon – Rhoi cyfraniad o £50.00
3. Theatr Bara Caws - Rhoi cyfraniad o £50.00
4. Ambiwylans Awyr Cymru - Rhoi cyfraniad o £100.00
5. Eisteddfod yr Urdd 2023 - Rhoi cyfraniad o £50.00
6. Urdd Gobaith Cymru Eryri – Dim cyfraniad gan nad ydynt wedi gyrru eu mantolen ariannol i fewn.
7. Dawns i Bawb - Rhoi cyfraniad o £50.00
8. Côr Cantorion Llŷn - Rhoi cyfraniad o £50.00
9. Eisteddfod Llangollen 2023 – Dim cyfraniad gan nad ydynt wedi gyrru eu mantolen ariannol i fewn.

Cynnig: David Andrew Parry

Eilio: Thomas Victor Jones

Gofynnodd Ian Goronwy Williams os yw'r clerch wedi derbyn unrhyw beth yn ôl gan yr adran cynllunio ynglŷn â'r gŵyn am y garafan sefydlog yn Craig y Glyn ond nid oes dim wedi ei dderbyn felly mae hi am gysylltu hefo Cyngor Gwynedd i ofyn.

Cadeirydd yn cau'r cyfarfod am 8.45y.h.

Cyngor Cymuned **LLANBEDROG** *Community Council*

Cofnodion Cyfarfod 27/03/2023 7:00yh – O Bell